# Amserlenni dysgu a datblygu: Newidiadau i'r dirwedd ddeddfwriaethol caffael yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## RHAGFYR 2023

**Llywodraeth y DU - Diferion Gwybodaeth**
Dim ardystiad

Ar gyfer y rhai sy'n rhyngweithio'n rheolaidd â chaffael ac sydd angen rhywfaint o ddealltwriaeth berthnasol o'r ddeddfwriaeth newydd yn dilyn cyflwyno Deddf Caffael 2023, gan gynnwys uwch arweinwyr ar lefel weithredol, cyllid, comisiynwyr gwasanaethau, ac ati.

**Hyd at 45 munud**
(wedi'i rannu'n chwe adran)

Mae Diferion Gwybodaeth a thaflenni ffeithiau ar dudalennau gwe 'Trawsnewid Caffael Cyhoeddus' Llywodraeth y DU yma.

## EBRILL 2024

**E-Ddysgu Llywodraeth y DU**
Hyfforddiant craidd ar gyfer Deddf Caffael 2023.

Ar gyfer gweithwyr proffesiynol medrus ar lefel masnachol a chaffael sydd angen deall y drefn newydd, ee staff caffael gweithredol neu staff masnachol sy'n bennaf gyfrifol am gynnal tendrau, gosod contractau, neu reoli cyflenwyr neu gontractau.
Gall dysgwyr ddewis cwblhau *rhai* o'r modiwlau sy'n berthnasol iddyn nhw. Fodd bynnag, ni fyddent yn derbyn ardystiad, nac yn cael mynediad at y sesiynau Archwilio Dwfn.

Ardystiad ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus

**10 awr**
Deg modiwl un awr

Bydd dysgu hunan-dywys ar gael ar wefan Coleg Masnachol y Llywodraeth (GCC).

Bydd angen i ddysgwyr gofrestru gyda'r GCC i gael mynediad i'r deunydd yma

Mae rhagor o fanylion am gynnwys hyfforddiant Llywodraeth y DU ar gael yma

## EBRILL/MAI 2024

**E-Ddysgu Llywodraeth Cymru**
Hyfforddiant atodol - nid yn lle hyfforddiant craidd Llywodraeth y DU ar y Ddeddf Caffael.

Dim ardystiad

**3 awr**
Chwe modiwl 30 munud
**Nodwch** mae'r modiwlau'n cael eu datblygu, felly mae'r amseroedd yn fras

Ar gyfer unrhyw un o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru sydd angen deall y dirwedd ddeddfwriaethol caffael newydd yng Nghymru.
Gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, mae'r hyfforddiant hwn yn ymgorffori gofynion o dan y Ddeddf Caffael, y dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

Bydd dysgu hunan-dywys ar gael ar wefan Dysgu@Cymru.

Bydd angen i ddysgwyr gofrestru gyda Dysgu@Cymru i gael mynediad i'r deunydd yma

## MAI 2024

**Archwiliadau Dwfn Llywodraeth y DU**

Adeiladu ar y ‘beth’ a ddarperir gan e-Ddysgu, i ganolbwyntio ar y ‘sut '.

e-Fathodyn ar ôl ei gwblhau'n llawn

**3 diwrnod yn olynol**
**Nodwch** bydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal am gyfnod o 58 wythnos

Dosbarthiadau rhithwir rhyngweithiol, cymysg, dan arweiniad hyfforddwyr mewn carfannau gydag uchafswm o 24 o gyfranogwyr. Byddant yn rhoi'r sgiliau a'r hyder i'r rhai sydd angen dod yn ymarferwyr arbenigol yn y weithdrefn newydd i wneud y mwyaf o fanteisio ar Ddeddf Caffael 2023, gan gynnwys rheolwyr categorïau a chyfreithwyr arbenigol.

Bydd dysgwyr sydd wedi’u **henwebu** yn cael eu hannog i gofrestru ar sesiwn rithwir ar ôl cwblhau e-Ddysgu Llywodraeth y DU yn llwyddiannus. Bydd modd archebu lle ar system dreigl 3 mis.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal Archwiliadu Dwfn yn y Gymraeg yn ôl yr angen.